

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
07/11/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol
The Provision of Social Services

Q12 Karen Sinclair: Will the First Minister make a statement on the provision of social services in Wales? OAQ1999(FM)

C12 Karen Sinclair: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru? OAQ1999(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): The legal responsibility for social services rests with local authorities. The Assembly Government's responsibility is to provide the strategic framework and inspection regime to support these services. Our draft strategy for social services in Wales provides a framework to secure high quality and responsive social care service across Wales.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Gydag awdurdodau lleol y mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol am wasanaethau cymdeithasol. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw darparu'r fframwaith strategol a'r gyfundrefn arolygu i gefnogi'r gwasanaethau hyn. Mae ein strategaeth ddrafft ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol Cymru yn darparu fframwaith i sicrhau gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n ymatebol ac sydd o ansawdd uchel.

Gwasanaethau Cyhoeddus
Public Services

C13 Elin Jones: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gydag aelodau'r Cabinet parthed gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ2008(FM) [W]

Q13 Elin Jones: What recent discussions has the First Minister had with members of the Cabinet on public services in Wales? OAQ2008(FM) [W]

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd gydag aelodau'r Cabinet ac yn trafod ystod eang o faterion, gan gynnwys darparu gwasanaethau cyhoeddus.

The First Minister: I meet regularly with members of the Cabinet and discuss a wide range of issues, including the provision of public services.

Trafnidiaeth Gymunedol
Community Transport

Q14 Kirsty Williams: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support community transport? OAQ1994(FM)

C14 Kirsty Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi trafndiaeth gymunedol? OAQ1994(FM)

The First Minister: We have provided £9.4 million to local authorities in Wales through our local transport services grant to subsidise bus and community transport services. In addition, £3 million has been made available to support 15 demonstration projects for severely disabled people across Wales.

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi rhoi £9.4 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru drwy ein grant gwasanaethau trafndiaeth leol i sybsideiddio gwasanaethau bws a thrafnidiaeth gymunedol. Yn ychwanegol at hyn, yr oedd £3 miliwn ar gael i gefnogi 15 prosiect arddangos ar gyfer pobl ag anabledau difrifol ar draws Cymru.

Trosglwyddo Gofal Transfers of Care

Q15 Jonathan Morgan: What discussions has the First Minister had regarding the written statement issued by the Minister for health on 13 October 2006 stating that 'the published September figures for delayed transfers of care will show a further significant increase'? OAQ1998(FM)

C15 Jonathan Morgan: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael ynghylch y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros iechyd ar 13 Hydref 2006 yn nodi y bydd ffigurau cyhoeddedig mis Medi ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal yn dangos cynnydd sylweddol arall? OAQ1998(FM)

The First Minister: I hold regular meetings with Brian Gibbons on a number of issues, such as hospital waiting times, delayed transfers of care, and related matters.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Brian Gibbons ynghylch nifer o faterion fel amseroedd aros ysbytai, oedi wrth drosglwyddo gofal, a materion perthynol.